




Templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Teitl / Darn o waith:	Hawl y plentyn i gyflwyno apeliadau sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig, a honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd, gerbron Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
Adran:	Addysg a Sgiliau
Dyddiad:	05/01/2015

Chwe Cham at Sylw Dyledus



Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Mae'r darn hwn o waith yn ymwneud â gweithredu hawlliau a dyletswyddau o dan Fesur Addysg (Cymru) 2009 ("y Mesur"), sy'n rhoi'r hawl i blant eu hunain gyflwyno apelau sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig, a hefyd honiadau o wahaniaethu ar sail anabled, gerbron Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Yn ogystal â hyn, mae'r Mesur yn rhoi nifer o ddyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod yr hawlliau newydd yn effeithiol, ac mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i dreialu'r hawlliau a'r dyletswyddau newydd am gyfnod o hyd at 40 mis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol.

Daeth Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) 2012 ("y Gorchymyn Cychwyn") a Rheoliadau Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Treialu) 2012 ("y Rheoliadau Treialu 2012") i rym ar 6 Mawrth 2012. Daeth y ddau ddarn o ddeddfwriaeth hyn gyda'i gilydd â'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Rhan 1 ym Mesur 2009 i rym at ddibenion treialu yn unig. Mae Rheoliadau Treialu 2012 yn caniatáu i'r darpariaethau gael eu gwerthuso ac i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i ddiwygio'r Mesur os bydd angen.

Cafodd yr hawlliau a'r dyletswyddau newydd, a gyflwynir o dan y Mesur, eu treialu yn ardaloedd awdurdodau lleol Caerfyrddin a Wrecsam, yn wreiddiol hyd at 30 Mehefin 2015. Ar ôl i effaith Rheoliadau Treialu 2012 ddod i ben, daw'r hawlliau a'r dyletswyddau yn berthnasol i Gymru gyfan yn awtomatig.

Ar 26 Mehefin 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau Ddatganiad Ysgrifenedig a oedd yn nodi ei fwriad i weithredu'r Mesur ledled Cymru o ddechrau 2015. Gwnaed y penderfyniad yn sgil gweld casgliadau cadarnhaol adroddiad gwerthuso'r cyfnodau peilot.

Ar 5 Ionawr 2015, daeth Rheoliadau Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Treialu) (Dirymiad) 2014 i rym. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu rheoliadau treialu 2012 yn eu cyfanrwydd, a hefyd yn dirymu erthygl 4 o'r Gorchymyn Cychwyn. Drwy wneud hynny, mae'r rheoliadau hyn yn dod â'r cyfnodau peilot i ben, ac felly'n dwyn ymlaen yr hawlliau a'r dyletswyddau a gyflwynir o

dan y Mesur ledled Cymru.

Bydd cychwyn y rheoliadau hyn yn fuddiol i blant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig a/neu anabledd, gan y bydd yn caniatáu i'w hawliau newydd a'r dyletswyddau a gyflwynir o dan y Mesur gael eu hymarfer ynghynt nag a fwriadwyd yn wreiddiol o dan y ddeddfwriaeth.

Cam 2. Dadansoddi'r effaith

O ganlyniad i gyflwyno Rheoliadau Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Treialu) (Dirymiad) 2014, gan roi ar waith yr hawliau a ddarperir o dan y Mesur, bydd plant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig neu anabledd mewn sefyllfa well gan y byddant yn cael yr un hawliau ag sydd ar gael i'w rhieni ar hyn o bryd.

Cafodd yr hawliau a'r dyletswyddau hyn eu treialu am ddwy flynedd yn ardaloedd awdurdodau lleol Caerfyrddin a Wrecsam. Comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad o'r cyfnodau peilot, a chafodd adroddiad ar y gwerthusiad hwnnw ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru: <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/evaluation-pilot-young-peoples-rights-appeal-claim-sen-tribunal/?skip=1&lang=cy>. Ar y cyfan, mae'r adroddiad gwerthuso yn gadarnhaol iawn. Mae'n cadarnhau mai'r farn gyffredinol yw bod y systemau a'r prosesau ar gyfer rhoi gwybod i blant a phobl ifanc am eu hawliau, yn ardaloedd y ddau awdurdod treialu, bellach ar seiliau cadarn a'u bod yn gweithio'n dda.

Serch hynny, mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod lefel ymwybyddiaeth awdurdodau lleol, o'r hawliau a'r dyletswyddau perthnasol sydd ar waith o dan y Mesur yn uwch, ar y cyfan, na lefel eu parodrwydd ar gyfer eu gweithredu. Felly mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau statudol i helpu awdurdodau i ddeall eu dyletswyddau newydd a chydymffurfio â nhw. Mae'r canllawiau statudol yn nodi eu cyfrifoldebau o dan y Mesur, ac yn eu cyfeirio at arferion da a ddatblygwyd drwy'r cyfnodau peilot. Gan fod y canllawiau yn benodol ar gyfer awdurdodau lleol, nid oes unrhyw ofyniad i gynhyrchu fersiwn sy'n addas i blant.

Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Mae Mesur Addysg (Cymru) 2009 yn rhoi mynegiant ymarferol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sef yn benodol:

Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried. Mae hefyd yn dweud yn benodol y dylai cyfle gael ei roi i blentyn fynegi ei farn mewn perthynas ag unrhyw achos barnwrol neu weinyddol sy'n effeithio arno, a hynny naill ai'n uniongyrchol, neu drwy gynrychiolydd, neu drwy gorff priodol, mewn modd sy'n gyson â rheolau gweithdrefnol cyfraith y genedl.

Bydd y Rheoliadau'n caniatáu i blant ddefnyddio'r hawliau o dan y Mesur, a hynny ynghynt nag y deddfwyd ar ei gyfer yn wreiddiol. Mae'r hawliau i gyflwyno apêl neu honiad yn mynd y tu hwnt i erthygl 12, gan y bydd yr un hawliau statudol yn cael eu rhoi i blant ag sydd wedi eu rhoi i oedolion (rhieni).

Yn ogystal â hynny, mae egwyddorion craidd canlynol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn berthnasol i'r polisi hwn:

Erthyglau 2 a 3 – parchu buddiannau gorau a hawliau plant.

Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i 'lais' y plentyn mewn perthynas ag unrhyw apêl neu honiad a gyflwynir gan blant.

Erthygl 13 – rhyddid i blant fynegi eu hunain, sy'n cynnwys yr hawl i geisio, derbyn a rhannu gwybodaeth a syniadau o bob math, waeth beth yw'r ffiniau, a hynny naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig neu mewn print, ar ffurf celf neu unrhyw gyfrwng arall sy'n gweddu i lais y plentyn.

Mae dyletswydd ar bob awdurdod lleol i roi cyngor a gwybodaeth mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag anghenion plentyn. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi'r hawl i blant gael eu cyfeirio at wasanaeth eiriolaeth annibynnol.

Erthygl 23 - cydnabod hawl plentyn sydd ag anabledd meddyliol neu gorfforol i fwynhau bywyd llawn a boddhaol, o dan amodau sy'n sicrhau urddas, sy'n hybu hunan ddibyniaeth, ac sy'n helpu'r plentyn i fod yn rhan go iawn o'r gymuned.

Bydd plant yn cael y cyfle i herio'r ddarpariaeth addysgol a roddir iddynt.

Erthyglau 28 a 29 – cydnabod hawliau pob plentyn i gael addysg, ar sail cyfle cyfartal, sy'n datblygu ei bersonoliaeth, ei ddoniau, a'i alluoedd meddyliol a chorfforol, mewn modd sy'n gwireddu ei botensial yn llawn.

Mae gan blant gyfle cyfartal i gyflwyno apêl neu honiad gerbron Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, ac i fynegi eu barn ynghylch y math o ddarpariaeth addysgol y dylent ei derbyn.

Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Rhoddwyd cyngor i'r Gweinidog o dan Reoliadau Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Treialu) (Dirymiad) 2014 a'r canllawiau statudol ar hawliau plant i gyflwyno apêl neu honiad.

Mae hyn yn cadarnhau bod Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi ei gynnal wrth ddatblygu'r polisi hwn, ac y bydd yr Asesiad hwnnw'n cael ei gyhoeddi unwaith y bydd Rheoliadau Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Treialu) (Dirymiad) 2014 yn dod i rym. Ni welwyd y byddai unrhyw wrthdaro ag erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r Gweinidog wedi cymeradwyo argymhell y cyngor a gyflwynwyd.

Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

Caiff yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ar yr un pryd ag y daw Rheoliadau Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Treialu) (Dirymiad) 2014 i rym ar 5 Ionawr 2015.

Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Bydd yr asesiad hwn o effaith yn cael ei adolygu yn sgil canlyniadau'r cynigion deddfwriaethol i ddiwygio'r fframwaith statudol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig.

Cyllidebau

<p>O ganlyniad i gwblhau'r Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?</p> <p>Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.</p>	<p>Nac Oes</p>
<p>Rhowch unrhyw fanylion:</p>	

Monitro ac Adolygu

<p>A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?</p>	<p>Oes</p>
<p>Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu</p>	<p>2016</p>

Gweler y dudalen nesaf
am Restr Gryno o
erthyglau'r CCUHP



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Ar 16 Rhagfyr 1991, cytunodd Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn cael yr holl hawliau fel y'u rhestrwyd yn y confensiwn.

Cafodd 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' gefnogaeth unfrydol ar draws y pleidiau pan basiwyd ef yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011. Cafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 16 Mawrth 2011 a daeth i rym ar 16 Mai 2011.

Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sydd yn yr CCUHP a'i protocolau dewisol.

Mae 54 o erthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae'r wybodaeth a geir yma yn ymddiried ag erthyglau 1-42 sy'n cyflwyno sut y dylai plant gael eu trin.

I gael rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i:
Wefan CCUHP Llywodraeth Cymru:
www.ccuhp.gov.uk

Clic - y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i Bobl Ifanc:

www.cliconline.co.uk/cym/newyddion

Gellir gweld 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' yn:

<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents>

CONFENSIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

www.ccuhp.gov.uk

Erthygl 1

Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

Erthygl 2

Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

Erthygl 3

Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 4

Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

Erthygl 5

Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.

Erthygl 6

Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

Erthygl 7

Mae gan bob plentyn hawl i enw a gofrestrwyd yn gyfreithiol, hawl i genedligrwydd a hawl i adnabod ei rieni ac, i'r graddau sy'n bosibl, i dderbyn gofal ganddynt.

Erthygl 8

Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cenedligrwydd a chlymau teulu.

Erthygl 9

Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni onid yw hyn er eu lles nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuloso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.

Erthygl 10

Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd gwahanol gael yr hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall y rhieni a'r plant gadw mewn cysylltiad neu ddoed at ei gilydd fel teulu.

Erthygl 11

Dylai llywodraethau gymryd camau i gadw plant rhag cael eu cymryd allan o'u gwledydd nhw'u hunain yn anghyfreithlon.

Erthygl 12

Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

Erthygl 13

Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidol iddyn nhw ac i eraill.

Erthygl 14

Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyhyd ag nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhieni arwain eu plant yn y materion hyn.

Erthygl 15

Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

Erthygl 16

Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

Erthygl 17

Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfrngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.

Erthygl 18

Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

Erthygl 19

Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hdl.

Erthygl 20

Rhaid i bobl sy'n parhau eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith edrych ar ol plant na all eu rhieni ofalu amdanynt.

Erthygl 21

Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu, yr ystyriaeth gyntaf yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau gael eu cymhyso os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle y'u ganwyd neu'n cael eu cymryd i fyw mewn gwlad arall.

Erthygl 22

Dylai plant sy'n dod i wlad fel fforduriaid gael yr hawl i blant a anwyd yn y wlad honno.

Erthygl 23

Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

Erthygl 24

Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bywd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Erthygl 25

Dylai sefyllfa plant y mae eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni yn gofalu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd.

Erthygl 26

Dylai'r Llywodraeth roi mwy o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.

Erthygl 27

Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hangenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant ffordio darparu hyn.

Erthygl 28

Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Erthygl 29

Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

Erthygl 30

Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafirif y bobl neu beidio.

Erthygl 31

Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Erthygl 32

Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.

Erthygl 33

Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyffuriau peryglus.

Erthygl 34

Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywiel.

Erthygl 35

Dylai'r Llywodraeth ofalu na chaiff plant eu cipio neu eu gwerthu.

Erthygl 36

Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.

Erthygl 37

Ni ddylid trin plant sy'n torri'r gyfraith yn greulon. Ni ddylid eu rhoi mewn carchar gydag oedolion a dylid eu cadw mewn cysylltiad â'u rhieni.

Erthygl 38

Ni ddylai llywodraethau adael i blant dan bymtheg oed ymuno â'r fyddin. Dylai plant mewn parthau rhyfel gael gwarchodaeth arbennig.

Erthygl 39

Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuloso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan-barch.

Erthygl 40

Dylai plant a gyhuddir o dorri'r gyfraith dderbyn help cyfreithiol. Dylid defnyddio defnyddiau o garchar i blant ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

Erthygl 41

Os yw cyfreithiau gwlad arbennig yn gwarchod plant yn well nag erthyglau'r Confensiwn, yna dylai'r cyfreithiau hynny aros.

Erthygl 42

Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob riant a phlentyn.